A Hefyd Angylion – CA3/4

Tasg 4: Trafod a chymharu

Edrychwch ar y tri phennill. Ystyriwch beth yw eu neges.

Doethineb gorau yn y byd
Yw cymryd cyngor da mewn pryd,
Ni thâl ceisio help y doctor
A'r gŵr yn myned ar ei elor.

Nid yw bywyd dyn ddim mwy
Nag ysbaid munud fach neu ddwy,
Am hyn ceisia'n glaf neu'n iach
Wir ddefnyddio'r ysbaid fach.

Ni cheir gweled mwy o'n hôl
Nag ôl neidr ar y ddôl,
Neu ôl llong aeth dros y tonnau,
Neu ôl saeth mewn awyr denau.
(Ficer Prichard)

TASG: Trafodwch yn eich grwpiau pa gyngor mae'r penillion hyn yn ei roi i ni, yn eich barn chi?

Oes mwy nag un neges yn y penillion?

Oes tebygrwydd rhwng y rhain a cherdd Gwyn Thomas?